OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 1505 (Cy. 200)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mehefin 2012* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mehefin 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mehefin 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 18 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd cefnffordd yr A40 o'r fynedfa dde-ddwyreiniol i'r orsaf betrol ger Cylchfan Cinderhill Street/Portal Road i'r man lle y mae'n uno â'r brif gerbytffordd tua'r gogledd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darn penodedig o’r gefnffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mehefin 2012

*R Morgan*
*R MORGAN*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru